

Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – arolwg teuluoedd, rhieni a gofalwyr

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan deuluoedd, rhieni a gofalwyr i'r arolwg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fel rhan o'i waith craffu cyfnod 1 graffu ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) Llywodraeth Cymru.

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y canrannau bob amser yn dod i 100%. Cafwyd 530 o ymatebion i'r arolwg sy'n cynrychioli barn y rhai a ymatebodd, nid y cyhoedd yn gyffredinol.

Ydych chi'n meddwl bod anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n ddigon cyflym ac yn ddigon da ar hyn o bryd?

- Ydw: 5.9%
- **Nac ydw: 90.1%**
- Ddim yn siŵr: 4.0%

*Cafwyd 527 o ymatebion

Ar ôl i blentyn neu berson ifanc gael ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol, pa mor dda yw'r cymorth sydd ar gael?

- Da iawn: 3.1%
- Da: 12.5%
- Gweddol: 30.7%
- **Gwael: 36.7%**
- Gwael iawn: 17.1%

*Cafwyd 521 o ymatebion



A ddylai pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn y coleg, yn gwneud prentisiaethau neu hyfforddiant yn y gweithle, gael eu cynnwys yn y system newydd a chael cefnogaeth?

- **Dylent: 95.6%**
- Na ddylent: 0.8%
- Ddim yn siŵr: 3.6%

*Cafwyd 527 o ymatebion

Ydych chi'n meddwl bod teuluoedd yn cael digon o gyfle i fynegi barn ynglŷn â sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu ar hyn o bryd?

- Ydw: 6.4%
- **Nac ydw: 86.3%**
- Ddim yn siŵr: 7.3%

*Cafwyd 424 o ymatebion

Ydych chi'n meddwl bod teuluoedd yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn anfodlon â'r ddarpariaeth addysg a gânt?

- Ydw: 4.5%
- **Nac ydw: 89.2%**
- Ddim yn siŵr: 3.4%

*Cafwyd 424 o ymatebion



A ddylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael bob amser gan berson annibynnol yn hytrach na dim ond oddi wrth yr ysgol, y coleg neu'r awdurdod lleol?

- **Dylai: 90.1%**
- Na ddylai: 4.7%
- Ddim yn siŵr: 5.2%

*Cafwyd 425 o ymatebion

I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

"Dylid defnyddio'r un system, cynllun cefnogi a datblygu ar gyfer pob oedran hyd at 25 oed, yn hytrach na chael systemau ar wahân mewn ysgolion a cholegau addysg bellach"

- Anghytuno'n gryf: 5.9%
- Anghytuno: 9.9%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 13.8%
- Cytuno: 33.3%
- **Cytuno'n gryf: 37.2%**

*Cafwyd 406 o ymatebion



"Mae'r system bresennol o roi datganiadau i rai plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion dysgu mwyaf yn creu rhaniadau a thensiwn"

- Anghytuno'n gryf: 9.5%
- Anghytuno: 16.9%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 23.1%
- **Cytuno: 35.3%**
- Cytuno'n gryf: 15.2%

*Cafwyd 402 o ymatebion

"Dylid diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc o fewn yr un math o gynllun, ni waeth beth yw lefel eu hanghenion"

- Anghytuno'n gryf: 9.5%
- Anghytuno: 17.8%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 12.5%
- Cytuno: 26.6%
- **Cytuno'n gryf: 33.6%**

*Cafwyd 399 o ymatebion

"Dylid gwneud i awdurdodau lleol a chyrrff iechyd weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol"

- Anghytuno'n gryf: 3.2%
- Anghytuno: 0.0%
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 2.5%
- Cytuno: 20.2%
- **Cytuno'n gryf: 74.1%**

*Cafwyd 405 o ymatebion



Dyma rai enghreifftiau o'r sylwadau:

Statws cyfreithiol y datganiad: "Dylid sicrhau bod plant â datganiad ag anghenion dwys a chymhleth yn parhau, neu mae perygl y bydd rhoi pawb ag anghenion o dan yr un cwmpas yn glastwreiddio'r holl system. Yn sicr, dylai'r datganiad barhau â'r un statws cyfreithiol ag sydd ar hyn o bryd, os nad mwy o statws gorfodol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer y plant hyn."

Atebolrwydd: "Er fy mod yn croesawu ymestyn y gefnogaeth nes 25 oed ar gyfer pobl ifanc ag anghenion ychwanegol, mae gennyf bryder y gall y cynigion newydd ei gwneud yn anoddach i rieni gael dweud eu dweud wrth geisio darpariaeth briodol ar gyfer eu plant. Mae hyn oherwydd ei bod yn ymddangos y bydd y llinellau atebolrwydd yn llai eglur clir nag y maent ar hyn o bryd, a'i bod yn fwy tebygol y bydd rhieni'n cael eu trosglwyddo o sefydliad i'r llall (yn enwedig rhwng ysgolion ac AALLau), gan glywed mai cyfrifoldeb rhywun arall yw hyn."

Atebolrwydd: "Mae ein plentyn bellach yn 18 oed ac rydyn ni'n teimlo ein bod ni wedi brwydro bob cam o'r ffordd, felly byddai cael mwy o gydlyniant rhwng yr asiantaethau yn wych. Rydym yn credu bod gan bob maes ei agenda ei hun ac mai prin yw'r oruchwyliaeth i weld y canlyniadau gorau. Mae person annibynnol mor ddefnyddiol."

Atebolrwydd: "Cafodd AAA fy mhlentyn eu nodi gan iechyd, ond dewisodd addysg anwybyddu'r cais am gymorth."

Atebolrwydd: "Dylai awdurdodau lleol gydweithio'n agosach. Symudodd fy mab o un awdurdod i un arall, a oedd yn golygu y cychwynnodd y gwaith asesu eto ac y collwyd amser gwerthfawr."



Atebolrwydd: "Mae'r system bresennol yn rhwystredig i deuluoedd ac nid yw amryw adrannau yn cydlynu'r gefnogaeth i'r teulu neu'r unigolyn."

Atebolrwydd: "Profiad gwael iawn o waith tîm aml-broffesiynol... mae angen gwneud llawer mwy i gysylltu popeth â'i gilydd."

Atebolrwydd: "Rwyf hefyd yn pryderu, os oes yn rhaid i asiantaethau gydweithio, y gall y gwaith cyfathrebu fethu ac y bydd un asiantaeth yn rhoi'r bai ar y llall am unrhyw gamgymeriadau."

Atebolrwydd: "Roedd gweithwyr proffesiynol meddygol yn dweud wrthym am y pedair blynedd diwethaf bod angen datganiad ar ein plentyn, ond dywedodd yr AALL nad eu lle nhw oedd dweud hynny. Dywedodd yr awdurdod mai nhw sy'n gyfrifol am drin y plentyn ac yn dod i'w adnabod."

System unffurf i bawb: Rwy'n pryderu hefyd y bydd un ddogfen i bawb yn arwain at wanhau'r gefnogaeth i'r rheini â'r anghenion mwyaf difrifol, ac y gallai'r rheini ag anghenion llai difrifol a'u teuluoedd weld y ddogfen newydd fel stigma.

Adnoddau ac arbenigedd: "Rwy'n credu mai llawer o'r broblem yw bod unrhyw densiwn sy'n cael ei achosi gan deuluoedd mewn achosion lle na roddir datganiadau o dan y system newydd yn codi oherwydd bod ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn tynnu'n ôl o'r broses yn lle rhoi datganiadau o dan y gyfraith a'r canllawiau cyfredol. Mae'n ymddangos i mi mai'r broblem yn bennaf yw diffyg staff ac adnoddau i helpu'r plant a'r bobl ifanc hyn, yn hytrach na phroblem o ran y gyfraith a'r canllawiau cyfredol."



Adnoddau ac arbenigedd: "Mae'n anodd iawn cael seicolegydd addysg i weld eich plentyn – dim ond hyn a hyn o slotiau sydd ar gael a nhw sy'n penderfynu ar y drefn flaenoriaeth. Mae cael asesiad meddygol CAMHS yn broses hir ac araf (cymerodd dair blynedd i ni gael apwyntiad cychwynnol) ac mae angen i rieni a meddygon teulu fod yn benderfynol iawn. Mae gwasanaethau CAMHS o dan ormod o bwysau. Rwy'n cydymdeimlo â'r staff oherwydd mae'n rhaid bod hyn yn gwbl dorcalonnus."

Adnoddau ac arbenigedd: "Sut fydd ysgolion yn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu heb ddatganiad? Mae llawer o ysgolion arbennig bron yn llawn... sut fydd anghenion plant yn cael eu diwallu?"

Adnoddau ac arbenigedd: "Dyw ysgolion ddim yn cael digon o arian i helpu i gefnogi anghenion ychwanegol."

Adnoddau ac arbenigedd: "Mae angen trefnu cyllid i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r system bresennol yn eu rhoi mewn ysgolion prif ffrwd heb ddigon o staff sydd wedi cael ychydig neu ddim hyfforddiant yn y maes arbenigol hwn. Nid yw'r ddarpariaeth ddyddiol i'r plant hyn yn ddigonol."

Adnoddau ac arbenigedd: "Nid oes digon o ddarpariaeth i ateb y galw."

Adnoddau ac arbenigedd: "Nid yw athrawon yn hyfforddiant nac adnoddau i nodi ADY mewn plant, ac mae'n ymddangos yn y rhan fwyaf o achosion bod plant ag ADY yn cael eu haddysgu gan gynorthwyr gydag ychydig neu ddim mewnbwn gan staff addysgu."



Adnoddau ac arbenigedd: "Fel athro mewn ysgol arbennig, mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau cydraddoldeb i bob plentyn ag anghenion arbennig a/neu feddygol, ac mae angen i bob plentyn gael cefnogaeth gyson."

Trosglwyddo i fod yn oedolyn: "Pan fydd person ifanc yn symud o'r ysgol/plentyndod i fod yn oedolyn, mae ei ddiagnosis/datganiad yn tueddu i fod wedi dyddio pan fydd angen gwneud cais am fudd-daliadau pellach. Mae pobl ifanc yn ei chael yn anodd iawn profi bod ganddynt ddiagnosis o hyd ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwrthod ceisiadau am y dystiolaeth ddiweddaraf o ddiagnosis."

Trosglwyddo i fod yn oedolyn: "O ran cael un system ar waith hyd 25 oed, mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau trosglwyddiad cydlynus a llyfn o ran addysg a sgiliau byw'n annibynnol, gan olrhain cynnydd ac addasu i anghenion yr unigolyn."

Atgyfeiriadau ac asesiadau: "Mae angen symleiddio'r broses atgyfeirio. Mae angen cwtsogi'r amser rhwng atgyfeirio ac asesu."

Atgyfeiriadau ac asesiadau: "Mae potensial i'r Bil newydd wella'r system bresennol, ond mae angen i rieni ac ysgolion gael eglurhad ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu lefel ADY a phryd y bydd yr awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb am gynlluniau dysgu unigol."

Grwpiau i'w hystyried: "Dylid cydnabod diabetes math 1 a'i effeithiau posibl ar wybyddiaeth a dysgu."

Grwpiau i'w hystyried: "Dylai'r ddarpariaeth ofal hon gynnwys cyflyrau meddygol fel diabetes math 1."



Grwpiau i'w hystyried: "Mae gan fy mab ddiabetes math 1 ac rwy'n teimlo nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu oherwydd mai problem feddygol yw hon."

Grwpiau i'w hystyried: "Dylech hefyd ystyried plant â chyflyrau meddygol, nid dim ond plant ag anableddau."

Grwpiau i'w hystyried: "Dylai pobl ifanc mewn prentisiaethau a chynlluniau eraill sy'n seiliedig ar waith barhau i gael cymorth drwy gynllun datblygu unigol. Bydd hyn yn cefnogi ac yn annog cyflogwyr i gymryd person ifanc ag ADY."

